

Cynlluniau Lle Ceredigion

Cynllun Lle Tregaron

2019

**Arwel Jones
Catherine Hughes
Michael Taylor**



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Strategaeth ar gyfer y dyfodol:

Tregaron yw un o'r chwe thref strategol yng Ngheredigion. Mae'n ddiddorol nodi bod pedair o'r trefi hyn – Tregaron, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul ac Aberteifi – wedi'u lleoli ar hyd afon Teifi sy'n ffurfio ffiniau dwyreiniol a deheuol y sir.

Mae Tregaron yn swatio yn ei chefnwlad ei hun sy'n cynnwys dyffryn afon Teifi, llethrau'r Mynydd Bach, a'r ucheldir i'r dwyrain o'r dref lle nad oes fawr neb yn byw. Ardal amaethyddol â phoblogaeth denau yw hon yn bennaf. Yn hanesyddol, mae Tregaron wedi bod yn ganolbwynt economaidd a chymdeithasol i'r ardal hon, gan ddarparu gwasanaethau iechyd, addysg a manwerthu (fel y farchnad da byw, y lladd-dy, 'co-op' y ffermwyr ac ati).

I raddau helaeth, mae'r ardal a'r dref wedi bod yn hunanddibynnol yn hanesyddol, er bod twristiaeth wedi chwarae rhan fach yn yr economi. Mae allfudiad pobl ifanc a phobl hyfedr wedi bod yn nodwedd o'r ardal ers o leiaf 200 mlynedd, a hynny'n enwedig ymhlith pobl ifanc. Mae mewnfudiad, yn bennaf o Loegr, hefyd wedi bod yn nodwedd ers y 1970au.

Mae dangosyddion cymdeithasol ac economaidd yr ardal yn dangos bod y cyfraddau cyflogaeth yn uchel (gyda phobl yn aml yn gweithio mewn mwy nag un swydd). Serch hynny, mae incwm y pen a gwerth ychwanegol y pen yn isel, ac ychydig o weithwyr proffesiynol a geir yma. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n cyflogi llai na phump o weithwyr, ac eithrio llond dwrn o fusnesau preifat a chanddynt fwy na 10 o weithwyr. Mae'r sector cyhoeddus yn cyflogi cryn dipyn yn fwy na 50% o'r gweithwyr, ond mae'r gyfran hon wedi bod yn disgyn.

Ceir rhai busnesau bach neu ganolig llwyddiannus iawn, a'r rheini'n aml yn fusnesau teuluol sydd wedi buddsoddi dros gyfnod ac sy'n dal i ehangu rywfaint. Mae angen hybu mwy o fusnesau o'r fath er mwyn darparu swyddi o ansawdd da i atal yr allfudiad o'r ardal.

Mae'r sector cyhoeddus wedi bod yn tynnu'n ôl o ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr ers 2010. Fodd bynnag, cafwyd buddsoddiad yn yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, mae prosiect Cylch Caron yn agosáu at y camau cymeradwyo terfynol (gobeithio), ac mae pwll nofio newydd yn cael ei arfarnu. Yn gyffredinol, mae gan Dregaron wasanaethau cyhoeddus da iawn ar gyfer tref o'r maint hwn, yn enwedig os caiff prosiectau Cylch Caron a'r pwll nofio eu cwblhau.

Mae siop Spar, Siop Nwyddau Caron a'r ddwy siop gigydd yn darparu gwasanaethau manwerthu da. Mae'r Talbot hefyd yn darparu llety pedair seren, tafarn, bwyty a chyfleusterau ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd. Mae dwy dafarn arall – y Llew a Sunnyhill – wedi ailagor yn ddiweddar. Mae Canolfan Rhiannon sy'n gwerthu gemwaith, gwaith celf ac anrhegion yn atyniad o safon i ymwelwyr, ac mae yno gaffi hefyd. Ers i'r tri banc gau, cafodd yr adeiladau eu prynu ac maent yn cael eu haddasu'n llety gwyliau, yn fwyty ac yn swyddfeydd.

O amgylch Tregaron, ceir cors, mynyddoedd a llynnoedd, yn ogystal â thir amaethyddol deniadol, ac mae nifer o draethau rhagorol 30-60 munud i ffwrdd mewn car ar arfordir Bae Ceredigion. Yn Aberystwyth, ceir canolfan gelfyddydol, Llyfrgell Genedlaethol, ystod eang o siopau cadwyn cenedlaethol, a thraethau a phromenâd deniadol.

Mae bywyd diwylliannol y dref yn fywiog, ac mae llawer o glybiau a sefydliadau'n cwrdd ynddi.

Mae Tregaron yn lle deniadol i fyw, i weithio ac i fagu teulu.

Felly, ble mae'r fagl?

Ceir llawer o atyniadau yn Nhregaron a'r fro. Fodd bynnag, nid yw wedi llwyddo i ehangu na chynyddu ei sail economaidd na'i chyfleoedd gwaith yn sylweddol, ac mae nifer o welliannau y byddai modd eu gwneud i beri i'r dref fod yn fwy deniadol i'r trigolion ac i ymwelwyr. I gadw ac i ddenu pobl ifanc, ac i wella ei sylfaen sgiliau a doniau, mae angen i Dregaron wella'i pherfformiad.

Tri phrif nod ein Cynllun Lle yw datblygu'r economi leol, gwella a datblygu'r ardal fel atyniad i ymwelwyr, a darparu digonedd o gyfleoedd i drigolion gymryd rhan mewn gweithgareddau a fydd yn gwella eu hiechyd a'u llesiant.

Prif leoliadau'r dref

Mae gan Dregaron a'r fro gyfoeth o hanes a digonedd o atyniadau a lleoliadau o bwys, gan gynnwys Cors Caron, Ystrad Fflur, Soar y Mynydd, Henry Richard, Twm Siôn Cati, Dewi Sant, Mynyddoedd Cambria, Gwesty'r Talbot, a Chanolfan Rhiannon, o enwi ond ychydig. Mae angen pwysleisio a marchnata'r pethau hyn fel atyniadau ac ardaloedd i ymweld â nhw er mwyn denu ymwelwyr. Gyda'r posibilrwydd o gael mwy o ymwelwyr, bydd yn annog busnesau newydd i agor ac i fod yn hyfyw.

Os gallwn farchnata ein hatyniadau a chymeriad unigryw Tregaron, mae cyfle inni gynyddu ein sail economaidd, rhywbeth a fydd yn ei dro yn darparu mwy o gyfleoedd gwaith ac yn sicrhau bod mwy o bobl yn byw yn Nhregaron ac yn defnyddio ein safleoedd llesiant at ddibenion hamdden.

A hithau'n borth i Fynyddoedd Cambria sydd wedi ennill statws ardal awyr dywyll yn ddiweddar, mae angen i Dregaron achub ar y cyfle hwn i fanteisio ar ei lleoliad fel y brif dref ar gyfer ymwelwyr â Mynyddoedd Cambria. Gallai Tregaron ddatblygu i fod yn ganolfan gweithgareddau awyr agored sy'n defnyddio dyffrynnoedd yr ucheldir a Mynyddoedd Cambria drwy ddarparu llwybrau cerdded, llwybrau beicio, ac, o bosibl, ffyrdd beicio tawel mwyaf anghysbell a phrydferth y Canolbarth.

Mae angen inni ymchwilio i'n cysylltiadau â'r porthmyn a fyddai'n teithio'n rheolaidd dros y mynyddoedd, ac ystyried creu llwybrau neu ddiwyddiadau i ail-greu'r

gweithgareddau hyn o'r gorffennol. A allai hon fod yn fenter ar y cyd ar gyfer y clwb cerdded a'r clwb beicio?

Creu lleoedd (Balchder bro)

- Cynllun i wella'r Stryd Fawr:

Mae cau'r holl fanciau a rhai o'r siopau wedi bod yn ergyd i ganol tref Tregaron, ond mae'r safleoedd hyn wedi'u gwerthu i fuddsoddwyr preifat sy'n mynd ati i'w datblygu'n fusnesau newydd. Mae'r datblygiadau sydd ar fin digwydd ar safle Cylch Caron yn destun dathlu a phryder! Mae'r ganolfan iechyd newydd yn adnodd rhagorol i Dregaron, ond pan fydd y feddygfa, y fferyllfa a'r ddarpariaeth gofal dydd yn symud o ganol y dref i'r safle newydd, bydd nifer o adeiladau yng nghanol y dref yn dod yn wag. Fodd bynnag, os bydd Tregaron yn penderfynu croesawu'r weledigaeth o fod yn gyrchfan ar gyfer gweithgareddau awyr agored, bydd modd trawsnewid yr adeiladau hyn yn safleoedd llety y mae mawr eu hangen yn Nhregaron.

Mae llety yn broblem fawr yn Nhregaron. Mae gennym westy rhagorol â llety pum seren, a nifer o safleoedd Airbnb a thai llety, ond nid oes gennym ddigon o lety i ddiwallu anghenion ein hymwelwyr. Mae galw enfawr am fyncws, maes gwersylla neu lety hunanarlwyo rhad, ac fe allai'r adeiladau gwag hyn fod yn berffaith ar gyfer llety o'r fath. Mae gan safle wrth ymyl Gwesty'r Talbot ganiatâd cynllunio i'w addasu'n fyncws bach, ond mae wedi bod yn wag ers blynyddoedd ac mae'n graddol droi'n ddolur llygad yng nghanol y dref. Mae angen mynd ati i ailddatblygu'r safle hwn ar unwaith.

Roedd unedau busnes bach a gofodau gweithio a rennir yn thema gyson yn ein hymgyngoriad, felly mae angen ystyried defnyddio Clos Twm Siôn Cati, safle'r hen ysgol gynradd neu safle'r hen lyfrgell fel safleoedd posibl. A oes cyfle i brydlesu'r unedau hyn i gwmnïau bach er mwyn iddynt gael siop yng nghanol y dref i werthu eu nwyddau pwrpasol? Unedau a rennir = llawr siop a rennir?

Tregaron yw un o'r unig ddwy dref sy'n dal i gynnal marchnad da byw. Er nad yw'r farchnad mor brysur ag y bu, mae'n dal i fod yn ased pwysig iawn i'r dref. Mae ei gwerthoedd masnachol yn wych, ond ei gallu i ddenu pobl i Dregaron o bell i ffwrdd yw ei rhinwedd orau. A hithau wedi'i lleoli ar dir amaethyddol eang, go brin fod llawer o drefi eraill yn y Deyrnas Unedig (os o gwbl) yn gallu gwneud yr un honiad â Thregaron – sef bod modd ichi fynd â'ch anifeiliaid o'r fferm i'r fforc heb fod angen ichi adael SY25! Mae ffermwyr yn magu eu hanifeiliaid ar ein tir, eu gwerthu yn y farchnad a'u lladd yn y lladd-dy lleol, cyn i'r cig gael ei werthu i gigyddion lleol a chael ei weini ym mwytai'r dref. Mae hwn yn brofiad unigryw a phersonol, ac mae'n bosibl y dylem wneud mwy i'w hysbysebu!

- Cyfleoedd datblygu

Llys Maesamlwg oedd datblygiad preswyl diweddaraf Tregaron, lle cafodd 14 o dai fforddiadwy eu codi gan Tai Cantref. Cafwyd rhai datblygiadau unigol hefyd. Ar y safle wrth ymyl canolfan arfaethedig Cylch Caron, ceir cynllun mawr i adeiladu tai ar

gyfer pobl hŷn, ond mae angen mwy o dai fforddiadwy yn Nhregaron. Mae nifer o dai ar werth, ond nid yw llawer ohonynt o fewn cyrraedd rhai sy'n prynu am y tro cyntaf. A fyddai modd inni lunio polisi sy'n cynorthwyo pobl leol i brynu eiddo am y tro cyntaf, yn hytrach na pheri i'r farchnad rentu gynyddu o hyd?

- Iechyd a llesiant

Mae angen ystyried anghenion iechyd a llesiant o safbwynt trigolion ac ymwelwyr. O estyn Llwybr Ystwyth i Dregaron, byddai hefyd yn effeithio ar lesiant trigolion y dref, oherwydd byddai llwybr diogel a hygyrch ar gael iddynt o'r dref, heb fod angen iddynt gerdded/beicio am ddwy filltir ar hyd ffordd gyhoeddus i gyrraedd y warchodfa a'r llwybr.

O ddatblygu pwll nofio newydd wrth ymyl y ganolfan hamdden bresennol, bydd yn gyfle gwych i breswylwyr gadw'n iach drwy ddefnyddio'r adnodd newydd. Ond, os gellir ei ddatblygu yn unol â manyleb benodol, gall hefyd fod yn atyniad gwych i ymwelwyr. O gynnwys llithren a thraeth / pwll bas, bydd yn creu adnodd neilltuol yng Ngheredigion ac yn annog pobl o bob rhan o Geredigion a thu hwnt i ddod i ddefnyddio'r adnodd.

Drwy symud y pwll nofio i safle'r ganolfan hamdden, bydd yn ehangu'r cyfleoedd a'r ddarpariaeth i rai sy'n defnyddio adnoddau'r ganolfan hamdden ar hyn o bryd. O fireinio a datblygu'r safle hamdden newydd mewn ffordd benodol, gallai ddatblygu i fod yn ased gwych ac yn atyniad deniadol yn Nhregaron.

Os yw'r dref am gael ei hystyried yn ganolfan gweithgareddau awyr agored ym Mynyddoedd Cambria, mae angen inni ddatblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded, llwybrau beicio mynydd newydd, a darpariaethau awyr agored eraill yn yr ardal – gyda'r cyfan yn dechrau ac yn gorffen yn Nhregaron. I greu llwybrau o'r fath, bydd angen addasu safleoedd penodol yn Nhregaron i ddarparu ar gyfer defnyddwyr o'r fath. Gall fod angen ailddatblygu adeiladau sy'n wag ar hyn o bryd yn safleoedd sy'n darparu llety rhad. Mae'n bosibl y byddai modd creu canolfan awyr agored i storio cyfarpar ymwelwyr yn ddiogel, i ddarparu mân atgyweiriadau i gyfarpar, ac i storio beiciau am oriau / dyddiau, yn ogystal ag ardal lanhau / ystafell sych hyd yn oed. Byddai'r holl bethau hyn yn ychwanegu at brofiad yr ymwelwyr ac, o allu cadw eu beiciau'n ddiogel a'u glanhau, bydd yn eu hannog i gerdded o amgylch y dref ac ymweld â'n siopau, ein tafarndai a'n bwytai.

Mae angen diweddarau'r ardal chwarae bresennol wrth ymyl y farchnad da byw i ddarparu cyfarpar cynhwysol mwy diweddar i annog ein plant i chwarae yn yr awyr agored. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol, ond byddai'n fuddiol gwneud rhai gwelliannau er mwyn i'r llawr fod yn fwy diogel. Wrth ymyl y parc, ceir man gwyrdd mawr / cae pêl-droed sy'n darparu ardal chwarae fawr ar gyfer chwaraeon o bob math. Mae'r ardal hon yn hanfodol i lesiant ac i gyfleoedd chwarae plant Tregaron. Fodd bynnag, mae hefyd yn safle datblygu deniadol iawn, felly mae angen inni sicrhau statws y safle hwn fel man gwyrdd a gwrthod unrhyw ymgais i brynu/gwerthu'r tir hwn at unrhyw ddiben ac eithrio man gwyrdd.

Mae'r ffaith nad oes gan Geredigion drac athletau synthetig yn destun embaras, ac mae'n warthus bod rhaid i blant deithio'n rheolaidd o'r sir i Gaerfyrddin i ddefnyddio'r cyfleusterau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau athletau yno. Ar ôl cyfathrebu â hi, mae'r ysgol wedi datgan diddordeb mewn cael trac athletau ar gae chwarae'r ysgol. Ers i'r ysgol newid i fod yn ysgol 3-16, nid oes angen tri chae rygbi arni mwyach. Mae hyn, a'r ffaith nad oes gan Dregaron dîm criced mwyach, yn gyfle i osod trac athletau yn yr ysgol heb fod angen ildio cyfleusterau chwarae eraill. Mae angen ystyried y fenter hon yn fanylach, oherwydd byddai gan Dregaron gyfleuster a fyddai o fudd i athletwyr yr ardal, ond a fyddai hefyd yn denu defnyddwyr o ardal ehangach i ddefnyddio'r safle.

Gwella'r amgylchedd naturiol:

Mae Llwybr Ystwyth sy'n dilyn hynt yr hen reilffordd yn ddolen gyswllt wych rhwng Tregaron ac Aberystwyth. Fodd bynnag, gan fod y llwybr yn dod i ben ddwy filltir o Dregaron, mae'n effeithio'n fawr ar ymwelwyr a defnyddwyr. Pe câi'r llwybr hwn ei estyn, byddai'n cael effaith fawr ar yr economi leol ac ar nifer y bobl sy'n ymweld â'r dref, oherwydd byddai'r defnyddwyr yn parcio yn Nhregaron er mwyn cerdded/beicio i'r warchodfa natur, cyn dychwelyd i Dregaron a galw heibio i'r siopau neu'r bwytai lleol. Ar hyn o bryd, mae'r unigolion hyn yn ymweld â'r warchodfa, ond yn hytrach na dod i Dregaron, maen nhw'n mynd ar eu hunion i'r trefi mwy o faint.

Mae'r troetffyrdd a'r palmentydd o amgylch Tregaron mewn cyflwr da. Yr hyn sy'n peri anhawster yw problemau parcio oherwydd nad yw gyrwyr yn talu sylw i'r cyrbau isel na'r llinellau melyn. Mae hyn yn peri iddi fod bron yn amhosibl i ddefnyddwyr anabl groesi'r ffordd na defnyddio'r palmentydd.

Tynnodd adroddiad blaenorol gan Hyder sylw at yr opsiwn o symud yr orsaf betrol i gyrion Tregaron, a chreu man gwyrdd a llwybr cerdded ar lan yr afon o flaen Eglwys Sant Caron. O wneud hyn, byddai'n creu man gwyrdd anhygoel yng nghanol Tregaron, a byddai'n ffordd o lanhau sawl ardal sy'n ddolur llygad drwy symud hen geir ymaith.

Er bod nifer o fannau chwarae a mannau hamdden gwyrdd yn y dref, ni cheir unrhyw randiroedd na gerddi natur. Pennwyd safle'r hen gwrs pitsio a phytio gerllaw'r llain fowlio fel man delfyrddol ar eu cyfer. Byddai hefyd yn defnyddio man sy'n segur ar hyn o bryd.

Teithio cynaliadwy a hygyrchedd:

Mae'r cysylltiadau cludiant yn effeithio ar nifer yr ymwelwyr heb gar sy'n gallu dod i'r dref, yn enwedig ar adegau anghyfleus – yn gynnar yn y bore, yn hwyr yn y nos ac ar benwythnosau. I gynyddu nifer yr ymwelwyr, yn enwedig ymwelwyr â'n bwytai gyda'r nos, byddai'n ddefnyddiol cael gwasanaeth bws hwyrach gyda'r nos ac ar benwythnosau. Fel y soniwyd eisoes, mae gan Dregaron nifer o atyniadau ac mae angen mynd ati i'w hysbysebu'n well ac i osod arwyddion i gyfeirio pobl atynt. Gan

fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld â Thregaron, rydym yn gobeithio y bydd arwyddion gwell yn cael eu gosod wrth fynedfa'r dref ac o amgylch y dref i gyfeirio pobl at atyniadau.

Ar hyn o bryd, ceir un maes parcio talu ac arddangos yn Nhregaron, ond mae'r rhan fwyaf o'r bobl leol ac ymwelwyr yn parcio ar y prif sgwâr neu ar ymyl strydoedd. O newid hyn, gallai effeithio ar fusnesau lleol oherwydd na fyddai pobl yn gallu stopio ar hap a galw i mewn i siop. Fodd bynnag, mae cyfle i'r dref etifeddu'r maes parcio oddi wrth yr Awdurdod a chynhyrchu incwm ar gyfer y dref. Fel arall, gallem godi tâl am barcio ar y sgwâr a darparu'r maes parcio am ddim i annog pobl i barcio yn y maes parcio. O gael peiriant talu ac arddangos ar y sgwâr, gallai gynhyrchu mwy o incwm na'r maes parcio ei hun. A fyddai modd defnyddio'r incwm ychwanegol hwn i adfywio agweddau penodol ar y dref?

Amcanion newid hinsawdd

Mae ceir trydan yn dod yn fwy poblogaidd, ac mae angen i'r dref fynd i'r afael â hyn ac achub y blaen drwy ddarparu mannau gwefru yn y dref. Mae angen lleoli'r mannau gwefru hyn mewn man canolog er mwyn i'r gyrwyr a'r teithwyr allu ymweld ag amwynderau lleol tra mae eu ceir yn gwefru. Ochr yn ochr â hyn, gallai Tregaron ystyried dod yn dref ddi-blastig, yn enwedig drwy osod ffynhonnau dŵr lle gall pobl ail-lenwi eu poteli dŵr yn hytrach na phrynu poteli dŵr plastig o hyd.

Hyrwyddo'r Gymraeg

Yn Nhregaron y mae'r boblogaeth fwyaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion, ond mae angen inni annog unigolion a chwmnïau i ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn cyfathrebu ac yn marchnata. Dylai Tregaron gyflwyno polisi sy'n gwobrwyo busnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg (rhyddhad ardrethi o bosibl?), ac, ym maes cynllunio, dylai fod gennym bolisi sy'n gwrthod unrhyw geisiadau i newid enwau lleoedd, eiddo a busnesau. Gan fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Dregaron yn 2020, dylai'r dref a'r pentrefi cyfagos achub ar y cyfle a sicrhau ein bod yn darparu pob gwasanaeth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog o leiaf. Yn sgil llwyfannu digwyddiad diwylliannol mor fawr, dylid sicrhau gwaddol drwy barhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Darpariaeth gymunedol a thwrystiaeth

Mae Tregaron yn ymfalchïo bod ganddi gymuned weithgar sy'n cynnwys nifer o grwpiau a sefydliadau sy'n cynnal digwyddiadau a chyfarfodydd wythnosol a misol. Mae'r rhestr hon yn ddi-ddiwedd, ond mae'n cynnwys rhywbeth i bawb. Mae grwpiau fel Tregaroc, Campau Caron a'r rasys trotian hefyd yn chwarae rôl bwysig o ran denu pobl i Dregaron ac mae angen cynorthwyo ac annog y grwpiau hyn i barhau i ddatblygu i sicrhau bod y digwyddiadau'n parhau i dyfu. Mae digwyddiad fel Tregaroc o fudd mawr i'r economi pan fydd dros 500 o bobl yn ymweld â'r dref am ddiwrnod ym mis Mai. Heb os, mae'r bariâu'n elwa'n fawr, ond, yn ystod y dydd, ceir cynnydd mawr yn nifer yr ymwelwyr â siopau fel Anrhegaton a Rhiannon hefyd.

Addysg

Rydym yn ffodus bod gennym ysgol 3-16 newydd sy'n ffynnu yn Nhregaron, ond mae'r datblygiad wedi peri i'r adran feithrin fod yn ddigartref! Ar hyn o bryd, mae'n defnyddio caban ar ymyl safle'r ysgol. Ond, yn sgil cau'r pwll nofio'n ddiweddar, mae cyfle inni adnewyddu'r ardal i greu uned feithrin i sicrhau bod modd darparu ein holl addysg ar yr un safle. Ceir llyfrgell gymunedol a pharth addysg i oedolion yno hefyd.

Hyrwyddo a rheoli gweledigaeth y Cynllun Lle

Rydym yn ffodus iawn ein bod yn byw mewn ardal mor brydferth, gyda phopeth sydd ei angen arnom ar garreg y drws. Serch hynny, nid ydym yn mynd ati'n effeithiol i farchnata ac i werthu'r ardal. O gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r ardal, byddai o fudd i'r trigolion hefyd, oherwydd byddai mwy o arian a chyfleoedd ar gael inni wella ein safonau byw hyd yn oed ymhellach.

Mae hysbysfwrdd rhyngweithiol yn yr arfaeth. Bydd hwn yn tynnu sylw at yr hyn sydd ar gael i bobl yn Nhregaron, ond a oes angen rhywbeth arnom i ddenu pobl i Dregaron yn y lle cyntaf? Ap ar gyfer y dref neu wefan gynhwysfawr? Bydd yr hysbysfwrdd yn adnodd rhagorol, ond ni fydd ond yn cael ei ddefnyddio gan bobl sy'n ymweld â'r dref. Mae angen inni fynd ati yn y lle cyntaf i ddenu pobl i'r dref!

Atodiad 1

Cyfarfod ymgynghori yn Neuadd Goffa Tregaron ar 5 Mehefin 2019 – Canlyniadau
Yr economi

- Siop / bwyty dros dro
- Mae angen swyddi o ansawdd gwell i gadw pobl ifanc yn yr ardal
- Ni ddylid canolbwyntio ar siopau yn unig – mae angen cyfleoedd gwaith go iawn arnom
- Cynnig cyfleoedd
- Unedau y gall busnesau bach eu rhannu
- Band eang gwell
- Gwella'r ddarpariaeth barcio – am ddim / mwy hygyrch
- Safle diwydiannol i ailgylchu plastig – gallai ddod â llawer o swyddi i'r ardal
- Gemwaith / Rhiannon – Celf a Chrefft – gweithdai / prentis
- Siop atgyweirio beiciau trydan / eco
- Mwy o swyddi
- Unedau busnes i'w rhentu
- Mwy o unedau cost isel ar gyfer busnesau newydd / crefftwyr
- Bwytai o ansawdd uchel / siop bwyd iach / cyfleoedd i ddefnyddio siopau gwag
- Annog defnydd o adeiladau gwag
- Stiwdio artistiaid
- Siopau dros dro – defnyddio adeiladau sy'n wag ar hyn o bryd – a all Cyngor y Dref brynu NatWest?
- Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflogi mwy o bobl leol yn hytrach na phrynu peiriannau drud i dorri brwyn
- Unedau deori – rhent isel i annog entrepreneuriaid ifanc i roi cynnig ar syniadau busnes
- Unedau busnes – ystad ddiwydiannol
- Mwy o gaffis / bistros wrth ymyl Pasha – lleoliad delfrydol
- Marchnad ffermwyr reolaidd
- Gofodau gweithio ar y cyd
- Mae seilwaith yn bwysig – datblygu'r economi – mae'r lleoliad yn ddelfrydol ar gyfer ecodwristiaeth – mae angen i bob datblygiad gadw'r effaith ar yr amgylchedd mewn cof
- Mae'r economi'n dioddef oherwydd nad oes digon o fysiau. O'r herwydd, nid oes modd stopio ac ymweld yn ystod y dydd. Dim digon o fysiau. Dim gyda'r hwyr

Twristiaeth

- Nid yw twristiaeth yn ddigon

- Mae twristiaeth yn dod â phobl i'r dref, nid dim ond ymwelwyr. Mae'n sbarduno pob rhan o'n heconomi ac yn dod â swyddi
- Arwyddion gwael at atyniadau lleol – nid yw ymwelwyr yn gwybod amdanynt
- Rwy'n erfyn arnoch i gael gwared ar yr hen geir sy'n eiddo i J Jenkins o Dregaron
- Llwybr beicio mynydd
- Maes gwerysyla / carafannau
- Mae angen cyfleusterau a darparwyr hamdden eraill yn yr ardal i atal ymwelwyr rhag mynd i'r arfordir ac ati. Cwmni llogi beiciau er enghraifft
- Mae angen atyniad i gadw pobl yn y dref am rai dyddiau
- Pennu rhinweddau'r ardal fel y mynyddoedd a Chors Caron
- Llwybr ar lan yr afon
- Anelu'n uchel. Mae llety o safon yn denu ymwelwyr mwy cefnog
- Llwybr hanes
- Llwybr ar ymyl yr afon
- Tacluso'r dref
- Cydweithio â sefydliadau eraill. Mewn undod mae nerth
- Maes gwerysyla
- Maes gwerysyla
- Mwy o orielau celf / crefftau / yr economi greadigol e.e. y Gelli Gandryll
- Gŵyl gelfyddydol / farddonol lefel uchel neu ŵyl o'r fath
- Ystafell ddianc / maes gwerysyla / bowlïo deg
- Gorsaf dŵr ffres – ail-lenwi poteli. Lleihau plastig (fel yn Glasgow gan Scottish Water)
- Man gwefru ceir trydan
- Defnyddio'r cae tu cefn i siop Spar – Banc Lloyds fel rhodfa / ardal hamdden, gan gynnwys yr afon, gyda llwybrau cerdded i ganol y dref
- Llwybrau beicio mynydd / llwybrau cerdded gyda mapiau / chwarae meddal
- Byncws a maes gwerysyla
- Airbnb
- Estyn y llwybr beicio i Dregaron / mwy o gyfleusterau hamdden e.e. bowlïo deg, chwarae meddal, llithrennau, ystafell ddianc / cae chwarae pob tywydd / cae 4G
- Bowlïo deg
- Llwybr rhyngweithiol o amgylch y dref
- Mwy o leoedd parcio / gwella cyfleusterau'r orsaf betrol
- Cyfleusterau atgyweirio beiciau modur / beiciau
- Maes gwerysyla / llwybr beicio
- Dim llygredd golau yn Nhregaron a Mynyddoedd Cambria – angen hyrwyddo hyn
- Byncws a maes gwerysyla
- Maes gwerysyla

- Mwy o leoedd i aros e.e. gwely a brecwast, hostel, maes gwersylla. Bwrdd rhyngweithiol i roi gwybodaeth i ymwelwyr pan fydd Whilen y Porthmyn ar gau
- Cyfleusterau / gorsaf i feicwyr – atgyweirio, pwmpio, golchi ac ati (fel sydd ar gael yn Aberystwyth)
- Llecyn gwersylla. Creu'r pwll nofio ger y ganolfan hamdden
- Os ydych am annog ymwelwyr, mae angen iddynt beidio â dibynnu ar geir. Beth sy'n digwydd o ran trenau / bysiau?
- Parc gwell
- Mwy o ddigwyddiadau blynyddol
- Llwybr ar lan yr afon a gwell arwyddion
- Llwybr seiclo o faes parcio Cors Caron i Dregaron
- Estyn y llwybr beicio o Faesllyn i Dregaron
- Hyrwyddo pysgota
- Llwybr seiclo o faes parcio Cors Caron i Dregaron
- Lle i wersylla / cysylltu'r llwybr seiclo yr holl ffordd i Dregaron
- Llwybr o Dregaron / Gypsy Lane
- Cysylltu Tregaron a Llanddewi drwy llwybr cerdded/seiclo

Llesiant

- Mae arnom angen ein pwll yn ôl!
- Gardd gymunedol
- Mae angen cyfleusterau hamdden eraill a fydd yn gallu denu ymwelwyr ac y gall pobl ifanc eu defnyddio
- Nid yw cerbydau brys yn gallu cael mynediad i Ddoldre
- Canolfan hamdden / pwll / cae 3G mewn un lleoliad (cae'r ysgol)
- Lleoli'r ganolfan hamdden / pwll yn yr un man â'r holl gyfleusterau hamdden eraill
- Ceir wedi'u gadael o amgylch y dref i gyd
- Byddwn yn hapus pe câi ein hen bwll nofio ei ailwampio a'i ailagor cyn gynted â phosibl. Yna, ewch ati i'w ailadeiladu
- Byddai'n dda cael canolfan lesiant gyda sba, therapi dŵr, gwasanaeth tyli-no' corff a phwll nofio. Does dim ots gennyf ble OND rwy'n pryderu am y costau rhedeg i'w gynnal
- Gorsaf ail-lenwi poteli i leihau nifer y poteli plastig. Gall pobl aildefnyddio poteli a'u llenwi yn ôl y gofyn
- Cae chwarae pob tywydd
- Therapi dŵr
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer y celfyddydau / stwideos i arlunwyr
- Rhandiroedd cymunedol
- Addysg uwch drwy'r llyfrgell
- Ardal chwarae meddal

- Cyfleusterau i annog plant i fod yn fwy actif – oedran-briodol, gyda chymorth i deuluoedd o ran teithio / costau. Cyflogi gweithiwr ieuencid / hyfforddwr ffitrwydd
- Cyfleusterau sba
- Cae 3G
- Meddygfa well gydag apwyntiadau gwell
- Mwy o ddsbarthiadau ffitrwydd. Gwell cyfleusterau campfa / pwll nofio. Cae 4G. Trac rhedeg. Clybiau i blant
- Cyfleusterau sba – sawna / ystafell stêm
- Cwrs pitsio a phytio tu cefn i dai Min-y-gors neu gwrs golff gwallgof 9/18 twll – byddai modd talu i'w ddefnyddio yn y ganolfan hamdden neu'r clwb bowlio
- Rhandiroedd / llwybr beicio o Dregaron i Gors Caron
- Defnyddio technoleg i wella hygyrchedd cyfleusterau hamdden (24/7) (yn gynnwys yn y bore / yn hwyr y nos?)
- Llwybr seiclo
- Pwll nofio a gwell arwyddion ar gyfer pêl-droed lleol
- Pwll nofio
- Llwybr beicio o Dregaron i Gors Caron
- Gwella'r cyfleusterau chwarae yn y parc lleol
- Pwll nofio a ffisiotherapi a phwll therapi dŵr
- Yn bendant yn cefnogi pwll, gyda chyfleusterau sba o bosibl
- Llyfrgell – lle da ar gyfer digwyddiadau cymunedol, grwpiau llyfrau – rwy'n gweld eisiau'r un y byddwn i'n mynd iddo pan oeddwn i'n byw ym Mryste
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer grwpiau cymunedol fel ioga, ymlacio. Stiwdio ddawns – dosbarthiadau rheolaidd e.e. bale
- Parc gwell
- Mewn rhai parciau, ceir cyfleusterau campfa awyr agored, beiciau, ac ati. Byddai hyn yn dda!
- Mae llesiant yn awr ac yn y dyfodol yn dibynnu ar addysg dda. Mae angen mwy o fynediad at addysg tu allan i'r ysgol ac i oedolion, a hynny mewn ystod eang o bynciau, gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau
- Mae hygyrchedd a diogelwch yn hollbwysig. Angen rheswm i ddod / aros a chludiant i gyrraedd yma o ardaloedd eraill
- Cyfleusterau sba sy'n gysylltiedig â datblygiad y pwll nofio (twristiaeth a llesiant)



Atodiad 2

Holiadur ymgynghori Cyngor Tref Tregaron – Gwanwyn 2018

Holiadur cymunedol Tregaron

Byddai Cyngor Tref Tregaron yn ddiolchgar pe baech yn ein helpu i bennu cyfleoedd posibl i sicrhau bod y dref yn lle gwych i fyw ynddo. Gofynnwyd i'n cymuned fod yn rhan o'r broses o lunio Cynllun Lle.

Mae Cynllun Lle yn gyfle i gymuned gydweithio i weld beth y gall ei wneud i sicrhau bod y lle gystal ag y gall fod.

Drwy ateb y cwestiynau a ganlyn, gallwn ddechrau ar y gwaith o lunio Cynllun Lle Tregaron.

Beth all sicrhau bod Tregaron yn gymuned wych i fyw ynddi?

Dewiswch un flaenoriaeth ar gyfer pob syniad e.e.

Syniad	Cytuno neu anghytuno	Blaenoriaeth isel	Blaenoriaeth ganolig	Blaenoriaeth uchel
Creu digwyddiad cymunedol blynyddol newydd	Cytuno			√

Rhowch sgôr i bob syniad o ran blaenoriaeth (dim ond un tic i bob syniad)

Nodau tymor byr

Syniad	Cytuno neu anghytuno	Blaenoriaeth isel	Blaenoriaeth ganolig	Blaenoriaeth uchel
Ailagor y pwll nofio				
Arwyddion ffordd newydd i Dregaron				
Map i roi gwybodaeth am Dregaron				
Uwchraddio a gwella maes chwarae'r plant				
Gosod cae chwarae pob tywydd				

Nodau tymor canolig

Syniad	Cytuno neu anghytuno	Blaenoriaeth isel	Blaenoriaeth ganolig	Blaenoriaeth uchel
Creu cyfleuster gwersylla lleol				

Nodau tymor hir

Syniad	Cytuno neu anghytuno	Blaenoriaeth isel	Blaenoriaeth ganolig	Blaenoriaeth uchel
Creu maes antur â weiren wib				

Hoffem glywed eich syniadau chi hefyd!

Ysgrifennwch eich awgrymiadau fan hyn:

Fy syniadau

Dyma rai datblygiadau cadarnhaol a fydd yn digwydd yn fuan yn Nhregaron:

Ysgol gynradd newydd

Canolfan iechyd Cylch Caron

Meithrinfa

Gofynnwn ichi lenwi'r holiadur a'i ddychwelyd erbyn 22/03/2018 i un o'r lleoliadau a ganlyn:

Anrhegaron

Y Talbot, Sgwâr Tregaron

Siop bapurau newydd Medical Hall

Siop Nwyddau Caron

Un o'ch Cynghorwyr Tref

Atodiad 3

Canlyniadau ymgynghoriad Cyngor Tref Tregaron – Gwanwyn 2018

1. Dewis arweinydd a grŵp i'w gefnogi/chefnogi i helpu i drefnu gweithgareddau wythnosol i hybu rhieni di-Gymraeg i ddysgu'r iaith fel arwydd o awydd y dref i gefnogi'r bwriad i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg
2. Creu rôl Swyddog Datblygu i gydweithio â Whilen y Porthmyn i ddatblygu a hybu'r dref
3. Bwrw golwg ar yr hyn y mae trefi o'r un maint wedi'i wneud yng Nghernyw, Swydd Efrog, yr Alban, a chyrion Parciau Cenedlaethol
4. Mae angen cefnogi gweithgareddau sydd gennym ni yn barod e.e. Ffair Garon, Rasys Trotian, sioeau lleol
5. Cadw a datblygu yr hyn sydd gennym yn barod
6. Atgyfodi Ffair Garon
7. Rydym yn parhau i fynd i'r afael â digwyddiadau unigol, gan geisio creu cyfleusterau ar wahân a mynd ati i wireddu prosiectau unigol, heb gyflawni llawer yn y pen draw. Mae rhai'n dibynnu'n llwyr ar ymdrechion da gwirfoddolwyr sydd, o reidrwydd, yn anghyson. Yn achos rhai (Ffair Garon, Whilen y Porthmyn et al), mae'r gwariant blynyddol yn llawer mwy na'r incwm, ac felly nid ydynt yn hyfyw ac maent yn methu. Rwy'n credu'n gryf bod angen i Dregaron fynd i'r afael â materion cymunedol mewn ffordd fwy corfforaethol neu fasnachol. O wneud hynny, byddai'n cynyddu ein gallu'n sylweddol pan fyddwn yn chwilio am syniadau neu brosiectau newydd, ac yn gwneud cais i gael arian grant, adnoddau neu gymorth, a byddai'n fodd o gronni adnoddau ac o rannu'r baich trefnu, rheoli, cyfrifyddu a gweinyddu. Efallai y byddai'n briodol llunio "Cynllun Busnes Tregaron" i gychwyn
8. Sicrhau bod y parc a'r cae chwarae yn parhau ar ôl cau'r Ysgol Gynradd. Maent yn hynod boblogaidd yn ddyddiol
9. Byddai'n braf cael parc y gall oedolion a phlant ei fwynhau (ardal Doldre?)
10. Maes chwarae gwell
11. Ffens uchel rhwng yr ardal chwarae a'r pyst gôl i warchod plant bach rhag iddynt gael eu hanafu pan fydd y bêl yn dod dros y ffin
12. Defnyddio un o adeiladau gwag Tregaron fel Tŷ Banc
13. Ailagor y banciau
14. Agor un o'r hen fanciau fel adnodd cymunedol a fydd yn cynnwys cyfleuster bancio, swyddfa bost, canolfan twristiaeth, Cyngor ar Bopeth
15. Ailagor un banc yn lle'r tri sydd wedi cau
16. Ceisio cael y banciau i ddod yn ôl, hyd yn oed am ddiwrnod!!!
17. Ailagor y banciau – cael un Banc i gynrychioli'r tri sydd wedi cau
18. Byddai banc yn braf
19. Roedd yn ddiwrnod trist iawn i Dregaron pan gaewyd y banciau fel yn achos llawer o drefi eraill. Dylid eu hailagor o dan un to. Gwarth ar y llywodraeth ganolog a Senedd Cymru
20. Dewch â'r banciau yn ôl mewn un adeilad
21. Banc cymunedol?? Banc y Ddafad Ddu

22. Pam na allwn ni sefydlu banc cymunedol?
23. Llyfrgell, beth sydd yn digwydd yn Llandysul? – Posibiliadau ar gyfer Tregaron
24. Ailagor y Llyfrgell
25. Ailagor y Llyfrgell
26. Byddai adeilad Natwest yn lle delfrydol – llyfrgell a chanolfan gwybodaeth
27. Agor llyfrgell yn hen adeilad Natwest, gyda gwirfoddolwyr lleol yn cynorthwyo
28. Ailagor llyfrgell, efallai yn NatWest
29. Rwy'n credu bod angen llyfrgell go iawn arnom. Erbyn hyn, rwy'n mynd i Lamberd oherwydd ei bod yn ymddangos bod y llyfrgell deithiol wedi cael salwch terfynol
30. Ailagor y Llyfrgell
31. Ailagor y Llyfrgell. Nid yw'r fan yr un fath – roedd y gallu i ddefnyddio cyfrifiaduron y llyfrgell gyda'r nos yn fuddiol i deuluoedd
32. Angen canolfan gofal plant
33. Meithrinfa
34. Cyfleuster Gofal Plant
35. Meithrinfa
36. Gwella'r ddarpariaeth gofal plant
37. Mwy o gyfleusterau i blant
38. Meithrinfa
39. Meithrinfa
40. Gofal plant/meithrinfa
41. Mwy o gyfleoedd gofal plant
42. Gofal plant, iau nac oedran ysgol, a hefyd ar ôl yr ysgol ac yn ystod y gwyliau i rieni sy'n gweithio
43. Lle i blant / pobl ifanc. Yn hytrach na cherdded y strydoedd
44. Mae gan y plant faes chwarae hyfryd yn barod, ond nid yw'n cael ei ddefnyddio ddigon. Efallai y dylid eu hannog i'w ddefnyddio'n amlach
45. Byncws
46. Canolfan astudiaethau maes, er enghraifft yn nyffryn afon Berwyn
47. Datblygu lleoliad o fewn y dref fel *'high end budget accommodation'* gydag ystafelloedd i unigolion, teuluoedd, grwpiau ayyb. Hefyd gyda chyfleusterau i gadw beiciau yn saff dros nos ac i'w golchi. Gall fod yn lleoliad i gerddwyr, beicwyr, ymwelwyr ayyb
48. Hostel – rhad i grwpiau
49. Defnyddio hen fanc NatWest fel canolfan gymunedol neu fyncws / lle llogi beiciau
50. Mwy o sefydliadau gwely a brecwast
51. Adeiladu mwy o gyfleusterau i blant a hostel ieuencid yng nghanol Tregaron
52. Hostel bacpacwyr i feicwyr. Llety rhad i rai sy'n mynd ar wyliau beicio. Warden i'w reoli. Archebu lle ar-lein a defnyddio system allweddi i gael mynediad. Anfon cod pan fydd archeb yn cael ei chadarnhau. Darparu gwely yn unig. Byddai beicwyr yn dod â sach gysgu ac ati gyda nhw (byddai ardal chweched dosbarth yr ysgol yn ddelfrydol)
53. Cwblhau'r llwybr beicio o Aberystwyth i Lamberd
54. Cysylltu'r llwybr troed/beicio/ceffylau rhwng Cors Caron a Thregaron

55. Cysylltu Tregaron â llwybr Cors Caron fel nad oes raid gyrru yno
56. Cwblhau cam olaf Llwybr Ystwyth
57. Ehangu Llwybr Ystwyth i mewn i'r dref i ddenu ymwelwyr
58. Cysylltu Llwybr Ystwyth â Heol yr Orsaf, a gosod arwyddion clir. Mae beicio yn fusnes mawr
59. Cwblhau'r llwybr beicio ar hyd y rheilffordd i Dregaron, gan ddarparu lleoedd parcio a chaffi
60. Llwybr troed rhwng Tregaron a Chors Caron
61. Ymestyn "Llwybr Ystwyth" fel ei fod yn cyrraedd tref Tregaron ei hun
62. Cysylltu Llwybr Ystwyth (Cors Caron) â Thregaron
63. Estyn y llwybr beicio/cerdded o Gors Caron i'r dref
64. Estyn y llwybr tua Thregaron
65. Ailagor y pwll nofio
66. Creu pwll nofio a fydd yn gyfleuster lle gall teuluoedd gael hwyl, gydag ardal chwarae meddal, caffi a phwll nofio
67. Mae angen ailagor y pwll nofio
68. Ailagor a gwella'r pwll nofio
69. Pwll nofio newydd a gwell
70. Pwll nofio!!!!
71. Cadw'r pwll nofio ar agor
72. Cadw'r hysbysfwrdd sydd tu allan i "Rhiannon" yn lân ac yn glir. Adnewyddu'r wybodaeth yn gyson
73. Cyngor y Dref i gyfathrebu'n effeithiol efo'r cyhoedd drwy rannu cofnodion cyfarfodydd yn ddwyieithog ar y we a rhoi copïau caled mewn mannau cyfleus i'w darllen
74. Dylid rhoi map o Dregaron ar yr hysbysfwrdd tu allan i ganolfan Rhiannon
75. Defnyddio hen fanc NatWest fel Canolfan Wybodaeth
76. Dosbarthu gwybodaeth yn rheolaidd
77. Byrddau hanes a gwybodaeth newydd o amgylch y dref
78. Mae Doldre i fod yn ardal gadwraeth, ond mae unrhyw un sy'n cyrraedd yno'n gweld hen geir a llwyth o deiars rwber
79. Ewch i'r afael â sgrap J J Jenkins o amgylch Tregaron. Mae'r modurdai'n warth ar y rhai a ganlyn, y Cynghorydd lleol Mrs C Hughes, y cyngor cymuned, Cyngor Ceredigion, Cyfoeth Naturiol Cymru. Os nad eir i'r afael â hyn, nid oes unrhyw obaith i Dregaron
80. Mae angen twtio canol y dref. Mae Rose Garage yn destun embaras. Ceir ac ati wedi torri. Dydych chi ddim yn sylwi ar yr eglwys hardd
81. Cael gwared ar geir Jos Jenkins sydd ym mhob man
82. Sbwriel yn Courier Street
83. Symud yr orsaf danwydd, creu llwybr ar hyd yr afon a gosod seddi. Twtio canol y dref a gosod hysbysfwrdd
84. Tacluso'r ardal! Cael gwared ar sbwriel ac ati
85. Creu gardd synhwyraidd gyda mannau i eistedd

86. Gosod tybiau blodau yng nghanol Tregaron (fel y rhai sydd yn Llambod) er mwyn i'r dref fod yn fwy croesawgar
87. Gosod tybiau blodau / basgedi crog mewn mannau cyhoeddus
88. Glanhau strydoedd Tregaron
89. Gwneud Tregaron yn ardal heb sbwriel (pwysleisio hyn yn yr ysgolion / cynllun mabwysiadu ffordd fel yn America, a chynnwys Heol Abergwesyn ynddo)
90. Gwella'r palmant ar Heol Ddewi, cyn i rywun gael ei anafu neu waeth, Rose Garage ac ardal Tan-y-bryn
91. Beth sydd wedi digwydd i'r syniad o gael llwybr cerdded ar lan yr afon?
92. Datblygu llwybr cerdded ar lan yr afon gyda mannau i gael picnic
93. Dosbarthiadau nos e.e. gwaith coed, crochenwaith, ieithoedd, gwaith nodwydd ac ati. Peidiwch ag anghofio'r bobl hŷn
94. Denu mwy o siopau
95. Mwy o siopau
96. Rhwydwaith busnes ar gyfer busnesau lleol
97. Mynd i'r afael â'r siopau a'r eiddo masnachol sy'n wag yn y dref cyn gynted â phosibl
98. Ffurio grŵp masnachwyr
99. Hyrwyddo'r cyfleusterau pysgota – afonydd a llynnoedd a physgodfeydd
100. Ceisio llenwi rhai o'r adeiladau sy'n wag
101. Gwneud gwell defnydd o'r adeiladau ysgol gwag er budd trigolion lleol
102. Siop gymunedol organig/iechyd
103. Ei gwneud yn fwy fforddiadwy er mwyn annog pobl i ddefnyddio'r dref fel canolbwynt i'w busnesau – defnyddio adeiladau'r dref
104. Rhaid cael rhyw fath o gyflogaeth yn y dref i gadw ein pobl ifanc yma. Mae'r holl arian yn cael ei wario yng Nghaerdydd. Mae cefn gwlad yn cael ei esgeuluso
105. Unedau diwydiannol yn yr ardal ar gyfer busnesau bach/newydd
106. Creu 20-50 o swyddi newydd
107. Annog busnesau newydd lleol!! Dim ardrethi
108. Cysylltu lan gyda Pwerdy Iaith Ceredigion sef cynllun Cered i gryfhau gwytnwch y Gymraeg yn Nhregaron
109. Efallai y gall rhyw fath o drefniant gael ei wneud â pherchnogion/arwerthwyr y siopau gwag i ganiatáu i artistiaid/crefftwyr eu defnyddio fel orielau/stiwdios dros dro, hyd yn oed os mai dim ond yn ystod y 'tymor twristiaid'.
Nid oes rhaid iddo gynnwys dim ond gweithwyr proffesiynol (megis Wynne Melville Jones), gallent fod yn gymydog i chi sy'n dda am wau neu bren-gerfio. Mae siop wedi'i rhedeg yn y gymuned yn Aberogwr, Pen-y-bont ar Ogwr, eisoes yn gwneud hyn. Efallai (neu yn ychwanegol), gellid troi rhai o'r adeiladau gwag hyn yn ganolfannau/gweithdai ailgylchu – nid ar gyfer dympio sbwriel, ond i bobl sy'n gallu, neu os hoffech chi, troi pethau nad oes neb yn eu caru i mewn i eitemau defnyddiol neu ddeniadol (nid oes gan bawb sied i wneud y math hwn o waith). Mae yna siopau cymunedol hefyd yn yr Almaen sy'n derbyn, trwsio (lle bo angen) a llogi offer DIY ac offer arall pan na fydd pryntiant un-defnydd yn

fforddiadwy. Yn Norwy, maent yn trwsio, ailgylchu a gwerthu offer a ddygir i'w safleoedd tirlenwi fel gwastraff mewn siopau yn y safleoedd hynny.

(Dyma enghraifft o'r hyn y gellir ei wneud. Dydw i ddim yn awgrymu bod gennym safle tirlenwi yn Nhregaron.) Dychymyg yw'r cyfan sydd ei angen ar y dechrau.

Dychymyg ac agweddau cadarnhaol ar feddwl agored

110. Gweithdai celf i'w llogi am bris fforddiadwy – defnyddio hen adeiladau'r chweched dosbarth a'r llyfrgell? (mae peiriannau recordio CD proffesiynol ar gael am brisiau rhesymol) – gallai hyn fod o ddiddordeb i oedolion ifanc sy'n greadigol ond nad oes ganddynt ddigon o le gartref. Ond mae pobl hŷn yn yr ardal hefyd ar gyfer cyfathrebu rhwng y naill genhedlaeth a'r llall. Gall fod modd cynnwys oriel i ddenu ymwelwyr?
111. Creu diwydiant a gweithdai lleol
112. Creu gweithdai i grefftwy'r lleol
113. Darparu unedau ar gyfer busnesau creadigol am brisiau fforddiadwy
114. Parc cŵn da y gall yr holl gŵn chwarae ynddo
115. Mwy o bethau i deuluoedd eu gwneud yn Nhregaron
116. Cae rygbi ar bwys y clwb rygbi
117. Coleg chweched dosbarth i Geredigion
118. Pwyso a mesur y posibilrwydd o gael campws Coleg Ceredigion yn Nhregaron
119. Mae cael gwared ar gyffuriau o Dregaron yn flaenoriaeth uchel!
120. Canolfan chwarae meddal
121. Canolfan chwarae meddal i blant
122. Ardal chwarae meddal dan do sy'n debyg i 'Ar y Bêl'
123. Canolfan chwarae meddal dan do
124. Agor y gampfa yn ystod y dydd ar ddyddiau'r wythnos. Hyd yn oed am gwpwl o oriau. Ni all pawb fynd yno gyda'r nos
125. Llwybr i blant ysgol drwy'r cae i'r ganolfan hamdden
126. Canolfan hamdden gydag offer mwy pwrpasol
127. Clwb ieuenctid yn y ganolfan hamdden
128. Clwb ieuenctid. Rwy'n gwybod bod clwb yn y capel, ond dyw'r plant ddim yn hoffi'r rhan ohono sy'n ymwneud â 'Duw'
129. Gwella cyfleusterau ymarfer corff oedolion a phlant
130. Uwchraddio'r ganolfan hamdden ac adfer y cwrt sboncen yn benodol!
131. Parhau â'r gwaith a wnaed gan y tîm sy'n llwyfannu digwyddiadau yn Nhregaron, fel yr hanner marathon, y triathlon sbrint
132. Nid syniad fel y cyfryw, ond rhai argraffiadau. Dylai'r syniadau ganolbwyntio ar amwynderau lleol ac nid ar dwristiaeth. Nid oes angen maes gweryslla. Nid yw safleoedd lleol eraill yn llawn. Ni fydd weiren wib yn hyfyw. Roedd un ym Mharc Gwledig Pembre ac fe aeth y fenter honno i'r wal er bod y parc hwnnw'n denu degau o filoedd o ymwelwyr bob blwyddyn
133. Tref gweithgareddau awyr agored, beicio, cerdded, rhedeg
134. Cael eich gweld yn cefnogi mentrau lleol fel y farchnad dan do

135. Ailgyflwyno teithiau marchogaeth, ond targedu marchogion a fydd yn dod â'u ceffylau eu hunain gyda nhw ac yn aros mewn llety gwyliau sy'n darparu ar gyfer ceffylau – darparu teithiau tywys
136. Ymgyrch ailgylchu er mwyn i'r dref fod yn lle glân i fyw ynddo – fel Aberporth sydd wedi rhoi ymgyrch ddi-blastig ar waith. Yna, cymryd rhan mewn cystadlaethau fel tref orau'r DU i roi enw da i'r dref. Mae hwn yn fuddsoddiad yn y dref ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac mae hefyd yn cefnogi'r ddelwedd o bentref gwledig Cymreig, gan beri iddo fod yn fwy deniadol i ymwelwyr. Troi Mynyddoedd Cambria yn barc cenedlaethol a chynnwys Tregaron ynddo
137. Cael gwared ar yr holl faw cŵn ar y palmentydd er mwyn i'r dref fod yn fwy deniadol i breswylwyr ac i ymwelwyr
138. Buddsoddi mewn biniau baw cŵn – nid yw'n syniad cyffrous, ond mae'n lân, ac rydym yn annog pobl i ddod i wneud gweithgareddau yn yr ardal, ac mae gan fwy o bobl nag erioed o'r blaen gŵn
139. Glanhawr strydoedd / Warden cŵn
140. Dim parcio ar Stryd y Capel
141. Llinellau melyn (dwbl) ar hyd Stryd y Capel – yn wir, yng nghanol Tregaron i gyd
142. Dim parcio ger y feddygfa – llinellau melyn
143. Parcio am ddim yn y maes parcio i hybu economi'r dref
144. Parcio gwell
145. Parcio am ddim i geir
146. nnn
147. Parcio am ddim yn Nhregaron, yn enwedig ar y penwythnos
148. Darparu'r maes parcio a'r toiledau am ddim (neu roi blwch rhoddion ar gyfer y toiledau) – Os yw'r parcio am ddim, bydd pobl yn aros yn hirach ac yn gwario mwy
149. Parcio am ddim
150. Byddai Tregaron yn edrych yn llawer brafiach pe na bai pobl yn parcio yn y dref ond yn defnyddio'r maes parcio neu'r Talbot
151. Gwahardd parcio ar y sgwâr er mwyn i Dregaron fod yn ddeniadol i ymwelwyr
152. Parcio am ddim i drigolion Tregaron
153. Goleuadau traffig wrth y Medical Hall, mesurau tawelu traffig, heddlu'n cerdded y strydoedd
154. Goleuadau cyflymder sy'n fflachio
155. Angen gostwng cyflymder!
156. Peidio â chaniatáu i gerbydau nwyddau trwm droi i'r chwith o Stryd y Capel ar hyd Heol yr Orsaf (Sunnyside)
157. Symud y blychau graean ar ffyrdd gwledig a'u gosod ar ben rhiwiau yn hytrach na'u gwaelod
158. Estyn y goleuadau stryd ar hyd Ffordd Tregaron – Llambod. Mae'n beryglus cerdded yno gyda'r nos
159. Llwybrau troed gwell (ar hyn o bryd, maent yn beryglus iawn i rai sy'n defnyddio cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn)

160. Gosod tarmac ar y ffyrdd
161. Rwy'n defnyddio cadair olwyn a dydw i ddim yn gallu mynd i mewn i rai siopau, a dydy'r palmentydd ddim yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn
162. Pe bai'r maes parcio am ddim, rwy'n siŵr y byddai cryn dipyn yn fwy o bobl yn ei ddefnyddio (nid pawb wrth gwrs – pam cerdded ugain llath pan allwch chi aros yng nghanol y ffordd?). Dyw pobl sy'n byw yn yr hen ran o'r dref yn ddim yn gallu parcio, felly rwy'n credu eu bod yn talu cryn dipyn i barcio yn y maes parcio
163. Parcio am ddim. Yn ddelfrydol, dymchwel y garej yng nghanol y dref a'i droi'n faes parcio gyda seddi, a gwneud Tregaron yn lle y mae'n rhaid ymweld ag ef
164. Mae cryn dipyn o arwyddion ffordd yr ardal mewn cyflwr gwael – maen nhw'n rhydd ac yn aml yn pwyntio i'r cyfeiriad anghywir
165. Pan oeddwn i'n byw yng Nghonwy, fe osodwyd arwyddion ffordd ffansi ag arfbeisiau arnynt, ac fe dorwyd gwasanaethau i bobl anabl a'r henoed – plis peidiwch â gwneud hynny fan hyn
166. Mwy o glybiau e.e. grŵp chwerrthin
167. Mwy o bethau i grwpiau babanod ei wneud
168. Hybu cefnogaeth i sefydlu llwybrau ceffylau
169. Adfywio nifer o dai sy'n edrych yn ddiflas
170. Canolfan beicio
171. Sgyrsiau diddorol sy'n agored i bawb – yn debyg i Sefydliad y Merched, ond cynnwys dynion hefyd
172. Ailsefydlu Curiad Caron
173. Cael gwared ar yr eiddo ar lan afon Brenig ac ailadeiladu tai cymdeithasol o amgylch caeau chwarae'r ysgol
174. Adfywio Ffair Garon fel 'Ffair Bwyd a Diod'
175. Cwrs cyfeiriannu
176. Trac i feicwyr mynydd – defnyddio'r coedwigoedd a'r mynydd
177. Gwell cymorth i'r henoed
178. Cae hoci a phêl-droed
179. Rhoi'r gorau i gau ysgolion, tafarndai, swyddfa'r post ac ati
180. Angen gwefan ar y dref
181. Ailagor y llwybr troed ym maes parcio Clos Twm Siôn Cati
182. Ailagor y rheilffordd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth
183. Creu "Centre Parcs" yng nghoedwig Diffwys
184. Cyfleusterau 'gym tu allan'
185. Neuadd chwarae neu ardal allanol i ieuencid
186. Gwneud gwell defnydd o Gors Caron a'r mynyddoedd – twristiaeth
187. Annog twristiaeth gweithgareddau. Cynllunio i ddefnyddio'r hen ysgol gynradd pan gaiff ei disodli
188. Gwella'r cysylltiadau cludiant cyhoeddus
189. Gwella'r gwasanaeth bysiau
190. Cynnal boreau coffi i annog pobl i gwrdd
191. A fydd Cylch Caron fyth yn cael ei adeiladu?
192. Ymladd i gadw'r ysbyty waelod a Bryntirion ar agor

193. ACHUB YSBYTY TREGARON RHAG IDDO GAU!!!
194. Cadw a datblygu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn Nhregaron, eto i hybu'r economi leol
195. Pam na chaiff yr Ysbyty a Bryntirion eu hadnewyddu yn lle eu cau?
196. Cadw Ysbyty Tregaron ar agor
197. Cael canolfan ddydd yn Nhregaron – mae angen ysbyty a chanolfan ddydd yn y gymuned a'r fro ehangach
198. Troi'r ysbyty waelod yn hosbis i Geredigion
199. Ysbyty newydd gyda mynediad hwylus i bobl hŷn. Gall llawer o bobl gerdded i'r dref, ond ni allant gerdded yn ôl i fyny'r rhiwiau, felly ni allant siopa ar eu pennau eu hunain. Oni fyddai'r holl anghenion meddygol yn peri i fywyd fod yn haws?
200. Troi cyfleuster cyfagos yn fflatiau un ystafell wely gyda gwasanaethau brys a diogelwch ar y safle er mwyn i'r bobl sydd am fod yn annibynnol symud o amgylch yn haws
201. Un meddyg ychwanegol
202. Cadw'r ysbyty a Bryntirion ar agor
203. Cadw'r ysbyty a Bryntirion ar agor – gan fod gennym boblogaeth sy'n heneiddio, mae angen mwy nid llai o welyau
204. Cadw'r ysbyty a'r cartref preswyl ar agor
205. Cyfleuster hyfforddi ar gyfer byw "electronig" modern – diogelwch rhag sgamiau ac ati
206. Rownd laeth o fferm leol
207. System teledu cylch cyfyng
208. Banc bwyd?
209. Darparu rhandiroedd lleol lle gall pobl dyfu bwyd
210. Rhandiroedd lleol
211. Rhandiroedd i deuluoedd
212. Gwneud Tregaron yn dref ddi-blastig ac yn dref masnach deg, lleihau llygredd golau, a defnyddio mwy o ynni solar
213. Lleihau llygredd golau, a gwneud Tregaron yn dref ddi-blastig ac yn dref masnach deg
214. Creu mwy o glybiau i bobl leol
215. Canolfan gymunedol h.y. clwb ieuentid, canolfan estynedig i deuluoedd
216. Digwyddiad gwibgertio
217. Parc sglefrfyrdio
218. Ailenwi Canolfan y Barcud yn amgueddfa leol gydag arwyddion da
219. Digwyddiad blynyddol am y porthmyn – ail-greu'r hanes, gyda gwisgoedd ac anifeiliaid o'r cyfnod
220. Atyniad twristiaid drwy greu sgwâr hen grefftau
221. Annog y sector amaethyddol a'r sector twristiaeth i ryngweithio â'i gilydd – o gynhyrchu bwyd i blât mewn bwyty...
222. Gwella'r wybodaeth i ymwelwyr
223. Cyfeillio â'r rheini sydd ar eu pennau eu hunain

224. Cyfleusterau i'r ieuenctid – e.e. clwb ieuenctid, digwyddiadau yn ystod y flwyddyn
225. Tacluso pob tŷ, gardd, stryd, pont, palmant, arwydd
226. Ale fowlio/canolfan ieuenctid – rhywbeth i ddiddanu'r plant yn hytrach na fandaleiddio
227. Mwy o arwyddion twristiaeth brown yn Nhregaron ei hun
228. Canolfan / gweithgareddau dringo
229. Canolfan greadigol / galw i mewn i roi cynnig ar weithgareddau celf a chrefft
230. Sba:)
231. Rhywbeth i'w wneud gyda'r nos i sicrhau bod ymwelwyr yn dal i ddod yma
232. Gwneud mwy o ddefnydd o'r Neuadd Goffa
233. Nosweithiau / prynhawniau sinema
234. Adeiladu ffordd osgoi i leihau nifer y lorïau trwm!
235. Aelod o'r cyhoedd i fod yn aelod o'r Cyngor Cymuned
236. Arwydd ffordd dwyieithog ar gyfer Tregaron
237. Hoffwn ddiweddarau ein hysbyty a Bryntirion, a'i roi o dan y pennawd "Brys"
238. Glanhawr strydoedd – glanhau'r strydoedd bob dydd / bob yn ail ddydd
239. Y Swyddfa Bost i gael ei symud o "Spar" lle maent yn deall dim – a'r staff yn cau'r Swyddfa Bost fel maent yn gweld yn dda
240. Wardeiniaid baw cŵn sy'n gallu rhoi dirwyon yn y fan a'r lle – does neb yn hoffi sefyll mewn baw cŵn. Rhowch yr arian yn y gronfa gymunedol
241. Grŵp cymunedol – fel Aber Beach Buddies – grŵp o wirfoddolwyr sy'n gwneud pethau nad oes gan y Cyngor arian i'w gwneud neu nad yw'n fodlon eu gwneud. Tacluso ardaloedd, clirio llwybrau troed ac ati
242. Cae pob tywydd ar gyfer yr ysgol
243. Llwybrau marchogaeth ceffylau – clirio a chynnal gatiau priodol
244. Y Cyngor Tref i gefnogi materion lleol ac ymladd dros gadw gwasanaethau yn y dref pan fo angen
245. Edrych ar Dregaron yn gyfan gwbl ac nid yn rhannau bach pan fydd rhyw syniad yn codi fan hyn a fan co
246. Creu mwy o ddefnydd o'r hewlydd coedwigaeth
247. Na i gyfleuster gweryslla oherwydd na fydd ond yn creu mwy o broblemau cyffuriau
248. Adfer y gwibdeithiau a'r nosweithiau coffi poblogaidd i bobl hŷn
249. Gwibdaith i'r henoed
250. Mae cae chwarae pob tywydd yn swnio'n ofnadwy o ddrud
251. Dydw i ddim yn siŵr beth yw maes antur weiren wib. Mae'n swnio'n beryglus iawn ac mae'n sicr y byddai angen i rywun fod ar ddyletswydd yno
252. Weithiau, bydd carafannau'n parcio ar Gors Caron. Rwy'n credu y byddai maes carafannau bach yn Nhregaron yn cael ei ddefnyddio. Gallai'r Clwb Carafannwyr roi cyngor ichi
253. Byddai parc yn cael ei groesawu. Byddai'r problemau arferol o ran baw cŵn yn codi, ond pe baech yn rhoi arwydd i ddweud bod system teledu cylch cyfyng ar waith ac y bydd trwynau'r perchnogion yn cael eu rhwbio yn y baw, gallai gael dylanwad arnynt
254. Cefnogi ymgyrch i ailagor y rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin

Atodiad 5

Crynodeb o ganlyniadau ymgynghoriad Cyngor Tref Tregaron – Gwanwyn 2018

	Cytuno	Anghytuno	Isel	Canolig	Uchel
Ail Agor Pwll Nofio	77			7	70
	63	1	5	6	52
Arwyddion Tref Newydd	52	25	22	20	10
	70	14	56	9	5
Map Gwybodaeth	61	16	16	28	17
	70	12	40	24	6
Gwella uwchraddio parc	66	11	11	23	32
	63	5	24	29	10
Astro Turf	57	20	19	22	16
	64	11	18	25	21
Gwersylla	59	17	15	23	21
	65	8	25	25	15
Zip Wire	44	33	22	15	7
	56	20	26	24	6